<u>**Hysbysiad o Gwneud**</u>

## GORCHYMYN

## B5122 HEOL-Y-DE, B5122 HEOL-Y-GOGLEDD, HEOL-Y-CAPEL, HEOL DDŴR, HEOL FAWR, LÔN-Y-PORTHMYN A FFORDD TREFFYNNON, CAERWYS

## GWAHARDDIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 10 Mehefin 2025 drwy arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984,, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i:-

1. Cyflwyno cyfyngiadau ‘Dim Aros ar Unrhyw Adeg’: -

a. Ar gyffordd y B5122 Heol-y-De â Heol-y-Capel, Caerwys.
b. Ar gyffordd y B5122 Heol-y-Gogledd â Lôn-y-Porthmyn, Caerwys.
c. Ar gyffordd y B5122 Heol-y-Gogledd â Heol Fawr, Caerwys.
d. Ar gyffordd y B5122 Heol-y-Gogledd â Heol Ddŵr, Caerwys.
e. Ar gyffordd y B5122 Heol-y-Gogledd â Ffordd Treffynnon, Caerwys.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol ‘Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgrynhoi) Cyngor Sir y Fflint 2013’ yn parhau mewn grym.

Os ydych yn dymuno gweld copi o’r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 04 Gorffennaf 2025, cynlluniau’n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau’r cyngor dros wneud y Gorchymyn, gellir eu harchwilio yn ystod oriau agor arferol swyddfa Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1AP. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymyn Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost i Transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Os ydych chi’n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, yr Wyddgrug CH7 6LG.

Dydd Gwener, 13 Mehefin 2025

**DYDDIEDIG 10 MEHEFIN 2025**

---

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# B5122 HEOL-Y-DE, B5122 HEOL-Y-GOGLEDD, HEOL-Y-CAPEL, HEOL DDŴR, HEOL FAWR, LÔN-Y-PORTHMYN A FFORDD TREFFYNNON, CAERWYS

# (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS

# A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)

# (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 70) 2025

---


**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),**

**Depo Alltami,**

**Ffordd Yr Wyddgrug Alltami,**

**Yr Wyddgrug, CH7 6LG**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**B5122 HEOL-Y-DE, B5122 HEOL-Y-GOGLEDD, HEOL-Y-CAPEL, HEOL DDŴR, HEOL FAWR, LÔN-Y-PORTHMYN A FFORDD TREFFYNNON, CAERWYS**

**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 70) 2025**

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV o Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

**ADRAN 1 - RHAGARWEINIOL**

**<u>Enwi a chychwyn</u>**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 04 Gorffennaf 2025 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir y Fflint, B5122 HEOL-Y-DE, B5122 HEOL-Y-GOGLEDD, HEOL-Y-CAPEL, HEOL DDŴR, HEOL FAWR, LÔN-Y-PORTHMYN A FFORDD TREFFYNNON, CAERWYS (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 70) 2025

2. O'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod ymlaen, bydd Atodlen Map N59 Diwygiad Taflen Rhif 2 yn disodli Atodlen Map N59 Diwygiad Taflen Rhif 1, yn y drefn honno, a'r holl atodlenni map eraill gyda'r atodlenni map a'r cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn Atodlen y Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn cyfeirio at gynllun wedi'i ymgorffori yn y gorchymyn hwn.

# ATODLEN
## Dim Aros ar Unrhyw Adeg
## Caerwys

| Road Name | Map Schedule | Sheet Revision |
|---|---|---|
| B5122 HEOL-Y-DE | N59 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| B5122 HEOL-Y-GOGLEDD | N58 | 1 |
| HEOL-Y-CAPEL | N59 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| HEOL DDŴR | N58 | 1 |
| HEOL FAWR | N58 | 1 |
| LÔN-Y-PORTHMYN | N58 | 1 |
| FFORDD TREFFYNNON | N58 | 1 |

219173

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y 10 diwrnod hwn o Mehefin 2025 )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**UWCH GYFREITHIWR**

## B5122 HEOL-Y-DE, B5122 HEOL-Y-GOGLEDD, HEOL-Y-CAPEL, HEOL DDŴR, HEOL FAWR, LÔN-Y-PORTHMYN A FFORDD TREFFYNNON, CAERWYS GWAHARDDIAD AR AROS AR UNRHYW ADEG

## CYNNIG I GYFYNGU AR AROS

### <u>Datganiad o resymau dros gwneud y Gorchymyn</u>

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig cyflwyno Dim Aros ar Unrhyw Adeg (llinellau melyn dwbl) ar y ffyrdd yn y rhestr uchod.

Bwriad y cyfyngiadau yw cynnal gweledEdd a sicrhau nad yw'r cyffyrdd yn cael eu rhwystro gan gerbydau sydd wedi parcio.

Mae parcio ar gyffyrdd, boed llinellau melyn ar y ffordd neu beidio, yn drosedd ac mae'r cyfyngiadau hyn yn rhwystr gweledol i atgyfnerthu'r neges hon. Ar hyn o bryd, pe bai cerbydau'n parcio o fewn 10 metr i gyffordd, gellir ystyried hynny'n drosedd a gall Heddlu Gogledd Cymru gymryd camau gorfodi. At hynny, mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi na ddylai cerbydau barcio ger neu ar gyffordd oherwydd gallen nhw achosi rhwystr a pheryglu diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau i bobl ddiamddiffyn sy'n defnyddio'r ffordd yn ogystal â gwella amwynderau yn yr ardal.

Ceir manylion am y yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn.


Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, yr Wyddgrug CH7 6LG.

Dydd Mehefin 13 2025.

AREA CODE:N58
COD ARDAL:N58

Sheet Revision No: 1
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 1

Sheet active from:04 July 2025
Dalen yn weithredol o: 04 Gorffennaf 2025




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 70) Order 2025

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 70) 2025


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE:N59
COD ARDAL:N59

Sheet Revision No: 2
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 2

Sheet active from:04 July 2025
Dalen yn weithredol o: 04 Gorffennaf 2025




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386


Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


# The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 70) Order 2025

# Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 70) 2025


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF




**KEY**

DIM AROS AR UNRHYW ADEG

No waiting @ Any Time Restrictions.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

Streetscene

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:

B5122 Hoel y Gogledd, Hoel y De,
Heol Ddwr and Heol Fawr

B5122 North Street, South Street,
Water Street and High Street

Caerwys

Aros Ar Unrhyw Adeg Waiting Restrictions

(Sheet 2 of 2)


Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: Lee Shone | | Telephone: 01352 70???? | |
| Drawn by: Nick Williams | | Fax No: 01352 70 | |
| Checked by: Lee Shone | | Date: Feb 2025 | Sheet 2 of 2 |
| Scales at A0: 1:NTS | Drawing No: HT/25/CAERWYS | | Phase/Rev: C1 |

COD ARDAL: N59
AREA CODE: N59

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No: 1
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 1
Sheet active from: 1 October 2013
Dalen yn weithredol o: 1 Hydref 2013




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250


This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386


## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
## (Civil Enforcement and Consolidation) Order 2013

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
## (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) 2013


Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF